

## **Cyflwyniad gan Rhian George, Swyddog Cefnogi Cymunedau ardal Gwyrfai, Cyngor Gwynedd**

Eglurodd Rhian George natur ei gwaith, sef i gynnig cymorth i gymunedau lleol, e.e. o ran datblygu prosiectau, ceisio am grantiau.

Weithiau mae'n anodd i Gyngorau Cymuned fod yn gymwys i gael grantiau ac felly gellir creu grwpiau cymunedol i oresgyn y broblem hon.

Cytunodd Rhian George i gysylltu efo'r deilydd portfolio a'r swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd er mwyn gweld a fedrai wneud unrhywbeth i gymhorthi sefydlu Clwb Ieuenctid ym Montnewydd.

Diolchwyd i Rhian George am ei chyflwyniad a gobeithwyd y byddai'n bosibl cydweithio'n y dyfodol.

### **PRESENNOL :**

**Cyngorwyr:** Math Williams, Geraint Strello, Peter Garlick, Gwyneth Thomas, Wynn Roberts, Dafydd Iwan, Mirain Llwyd Owen, Emyr Williams

**Cadeirio:** Erddyn Davies

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

### **1. YMDDIHEURIADAU**

Gwyneth Thomas, Ifor Dylan Williams

### **2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cadeirydd, Erddyn Davies fuddiant yn eitem 5.7, rhodd i Glwb Pêl –droed Bontnewydd, a gadawodd yr ystafell tra fod y mater yn cael ei drafod.

### **3. CADARNHAU COFNODION CYFARFODYDD MIS CHWEFROR a MAWRTH 2019**

Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror 2019. Mae angen ychwanegu at gofnodion mis Mawrth, gyfeiriad at yr angen i ofyn am ddiweddariad gan Jones Bros bob rhyw ddau fis ar y gwaith ar y ffordd osgoi.

Yn ogystal cwestinwyd y taliad o £825 i'r Clwb Pêl-droed yng nghofnodion mis Mawrth. Eglurwyd fod yna gytundeb ers rhai blynnyddoedd i dalu cyfanswm o £825 yn flynyddol i'r Clwb Pêl-droed ar gyfer torri gwair a chynnal a chadw.

## **4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

### **4.1 Clwb Ieuencid Bontnewydd**

Adroddodd Cyngor Gwynedd fod y ddau a bendodwyd ganddynt i ofalu am Glwb Ieuencid Bontnewydd wedi bod o flaen panel eu cyflogwr, Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn penderfynu a fyddent yn cael goruchwyllo'r Clwb Ieuencid ai peidio.

Siomedig yw deall fod Heddlu Gogledd Cymru wedi gwrthod iddynt ymgymryd â dyletswyddau'r Clwb Ieuencid, oherwydd ei fod yn ail-gyflogaeth, ond nid oedd Cyngor Gwynedd yn siwr o'r union reswm.

Bydd swyddogion Cyngor Gwynedd yn cyfarfod efo'r Aelod Cabinet, Dilwyn Morgan, sydd yn gyfrifol am y portffolio Plant a Phobl Ifanc yn fuan, er mwyn trafod y mater ymhellach.

### **4.2 Cerrig Afon Gwryfai a Llifogydd Bontnewydd**

Cafwyd ateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru oedd yn ymddiheuro am gyfeirio at gyfarfod ychwanegol yn eu e-bost diwethaf. Camgymeriad oedd hyn.

Roeddynt hefyd yn cadarnhau nad oedd newid yn eu barn a gyfathrebwyd o'r blaen – sef nad oedd cyfiawnhad i wneud gwaith i symud y graean yn yr afon oherwydd nad oedd tystiolaeth fod risg o lifogydd ochr isaf i bont rheilffordd Lôn Eifion.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd gan ofyn iddynt hwythau drafod y mater efo Cyfoeth Naturiol Cymru, gan y

gallai unrhwy lifogydd effeithio ar gyflwr y ffordd o Fontnewydd i Lanfaglan.

### **4.3 Y Ganolfan**

Mae'n debyg y bydd Pwyllgor Y Ganolfan yn medru talu am gost unrhyw uwchraddio i oleuadau'r Ganolfan eu hunain.

Bydd angen thermostat newydd i hen wresogydd y Cylch Meithrin ac angen pris am wresogydd ychwanegol a/neu osod yr hen un yn yr ystafell snwcer.

Mae sefyllfa ariannol Y Ganolfan yn well nag y bu, gyda mwy o ddefnydd o'r Ganolfan.

### **4.4 Cyfethol Aelod**

Gosodwyd hysbysiad ar hysbysfyrdau Bontnewydd a Llanfaglan yn gofyn i rai oedd â diddordeb i gael eu cyfethol i gysylltu â'r Clerc erbyn diwedd dydd Mercher 3 Ebrill. Ni ddangosodd neb ddidordeb.

Gofynnwyd i'r Clerc hysbysebu unwaith eto, a tynnu sylw at hyn yn Lleu.

## **5. MATERION ARIANNOL**

### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mawrth 2019**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £233.18 y mis

**Cyfanswm Net** £211.58 y mis

### **5.2 Costau Postio Clerc £1.83**

### **5.3 Graddfeydd Newydd Cyflog y Clerc – Dyfarniad Cyflog 2019-20**

Yn unol a'r cytundeb cenedlaethol ar gyflogau, bydd cyflog y Clerc yn codi o £208.18 y mis i £234.00 y mis ar raddfa 17 o raddfeydd cyflog Clercod.

### **5.4 Talu Parth 123 Reg £13.19**

**5.5 Anfoneb AER 28/02/19** – gosod gwresogydd yn Neuadd Y Ganolfan ac yn y Cylch Meithrin £3955.65. Mae costau'r rhain wedi cael eu trafod a'u cymeradwyo o'r blaen, ond dim ond yn ddiweddar y gwnaethpwyd y gwaith ac y cafwyd anfoneb.

**5.6 Balans yn y Banc 4 Ebrill 2019** £14,521.57

### **5.7 Rhoddion 2019**

Penderfynwyd gwneud y rhoddion canlynol ar gyfer 2019/20

- Ysgol Gynradd Bontnewydd £250
- Hwyl Y Bont £350
- Cylch Meithrin Bontnewydd £500
- Clwb Pel-droed Bontnewydd £300
- Eisteddfod Bontnewydd £150
- Cymdeithas Lenyddol Bontnewydd £50
- Canolfan Bro Llanwnda £50
- Wici Uwchgwyrfai £100
- Papur Bro Lleu £50
- Eisteddfod Sir Conwy, Llanrwst £100
- Theatr Baras Caws £50

## **6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Dim – ond gweler y trafodaethau ar ddatblygiad Cefnwerthyd yn 8.2 isod.

## **7. GOHEBIAETH**

- Israddio gwasanaeth fasgiwlar brys Ysbyty Gwynedd
- Heddlu Gogledd Cymru a Safonau Masnach - sgamiau

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth.

## **8. MATERION ERAILL**

### **8.1 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Rhaid i aelodau cynghorau cymuned benderfynu yn flynyddol ai ydynt am hawlio lwfans statudol ai peidio. Byddai'r lwfans yn daliad allan o adnoddau ariannol y cyngor cymuned.

Penderfynwyd peidio â hawlio lwfans ar gyfer y flwyddyn 2019/20.

## **8.2 Datblygiad Cefnwerthyd – enw a maes chwarae**

Awgrymodd Cyngor Gwynedd yr enwau Bro Werthyd, Bryn Hyfryd a ar gyfer datblygiad newydd Cefnwerthyd.

Fodd bynnag, fe gytunwyd i gefnogi awgrym y Cynghorydd Ifor Dylan Williams, sef Cae Capel, gan mai dyna enw cae'r datblygiad, ac mae tystiolaeth o hyn a'r ffaith fod capel wedi bod ar y safle yn ôl mapiau'r degwm.

Ysgrifennodd Cyngor Gwynedd i egluro na fyddai'n bosibl gosod offer chwarae fel rhan o'r darn chwarae agored ar waelod y safle. Mae hyn oherwydd fod yna danciau dal dŵr o dan y ddaear yn y fan hyn ac ni fyddai'n bosibl gosod offer chwarae ar eu pen.

Oherwydd hyn, mae Watkin Jones wedi awgrymu rhoi cyfraniad drwy gyfrwng Cytundeb Adran 106 i wella adnoddau chwaraeon ym mhentref Bontnewydd.

Atgoffodd y Cynghorydd Dafydd Iwan o drafodaethau y cafodd parthed darparu maes chwarae ar y datblygiad pan wnaed y cais cyntaf i ddatblygu stad Cefnwerthyd rai blynyddoedd yn ôl. Bryd hynny fe gytunwyd y byddai yna ddarpariaeth o ofod chwarae gydag offer chwarae ar safle'r datblygiad, fel amod cynllunio.

Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gan eu hatgoffa o'r amod cynllunio gwreiddiol i ddarparu offer chwarae, a gofyn i'r amod yma barhau efo'r cais cyfredol.

## **8.3 Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio Bontnewydd**

Mae'r gorchymyn hwn oedd yn gosod llinellau melyn ar y corneli ger y Penfras Aur a'r ffordd i'r Ganolfan wedi dod i rym a'r llinellau melyn wedi eu gosod.

## **8.4 Gwasanaeth Bws 91 Dinas Dinlle i Gaernarfon**

Cafodd cwmni bysiau Dilwyn's y cytundeb gan Gyngor Gwynedd i redeg gwasanaeth bws 91 o Ddinas Dinlle i Gaernarfon, yn dilyn penderfyniad Arriva i derfynu eu gwasanaeth.

Bu i'r Cynghorydd Sir, Aeron Maldwyn Jones wneud cais ar ran cynghorau cymuned Bontnewydd, Llanwnda a Llandwrog i gynnal darpariaeth fws pe na fyddai darparwr masnachol yn gwneud cais.

Roedd eitem ar Newyddion 9 S4C yn cadarnhau hyn.

Tra'n cefnogi'r egwyddor o ddarpariaeth drafnidiaeth gymunedol, a chydweithio rhwng cynghorau cymuned cyfagos, mynegwyd siom nad oedd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones wedi cysylltu na thrafod y mater mewn unrhyw fodd gyda Chyngor Cymuned Bontnewydd na'r ddau gyngor cymuned arall.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones gan nodi'r uchod.

## **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF A'R CYFARFOD BLYNYDDOL**

**2 Mai 2019** am 7yh Y Ganolfan, Bontnewydd ar gyfer y **Cyfarfod Blynyddol** a'r **Cyfarfod Misol**

